**CWESTIYNAU CYFFREDIN**

**1. Beth yw'r Academi Ddoethurol?**

Yr Academi Ddoethurol yw Ysgol y Graddedigion ar ei newydd wedd. Bydd yn cynnig ffocws mwy penodol ar gefnogi ymgeiswyr am radd ymchwil uwchraddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod gan ymchwilwyr uwchraddedig sgiliau ymarferol, a bydd yn gweithredu fel siop un stop ar gyfer cefnogi staff a myfyrwyr.

Bydd yn lansio ar 4 Awst 2025, a bydd yn cael ei chyflwyno'n raddol dros flwyddyn academaidd 2025/26.

**2. Pam fod yr Academi Ddoethurol yn cael ei chyflwyno?**

Mae'r Academi Ddoethurol yn cael ei chyflwyno er mwyn:

- Sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio'n fanylach ar anghenion myfyrwyr ymchwil uwchraddedig;
- Adeiladu ar gryfderau presennol y Brifysgol o ran addysgu myfyrwyr ymchwil uwchraddedig;
- Trawsnewid sut rydym yn hyfforddi ymchwilwyr uwchraddedig, gan roi sgiliau hanfodol iddynt yn hytrach na defnyddio dull sy'n seiliedig ar ennill credydau a chwblhau aseiniadau;
- Gwneud y siwrnai ymchwil uwchraddedig yn fwy hygyrch i staff a myfyrwyr uwchraddedig;
- Dwyn ynghyd y cymorth y mae'r Brifysgol yn ei gynnig i ymchwilwyr uwchraddedig;
- Rhoi gwybod i fyfyrwyr am y rhwydweithiau a'r cymunedau sydd ar gael;
- Gweithredu fel pwynt mynediad i arolygwyr fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

**3. Rwy'n ymchwilydd uwchraddedig. Sut mae cyflwyno'r Academi Ddoethurol yn effeithio arnaf?**

Bydd eich astudiaethau ymchwil uwchraddedig o ddydd i ddydd yn aros yr un fath ac nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Fodd bynnag, dros y flwyddyn academaidd nesaf, bydd yn haws i chi gael mynediad at y canlynol:

- Gwell rhaglenni hyfforddi a datblygu.
- Gwasanaethau cymorth wedi'u targedu'n fwy penodol.
- Y gymuned ehangach o ymchwilwyr uwchraddedig.

**4. Rwy'n arolygu ymchwilydd uwchraddedig. Sut mae cyflwyno'r Academi Ddoethurol yn effeithio arnaf?**

Ni fydd yn newid y broses arolygu. Bydd gwefan yr Academi Ddoethurol yn eich hysbysu am gyfleoedd hyfforddi newydd os ydych chi'n arolygydd, yn ogystal â gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth i ymchwilwyr uwchraddedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach cyn lansio'r Academi Ddoethurol, anfonwch e-bost at ysgol.graddedigion@aber.ac.uk.

**5. Rwy'n aelod o staff y Gwasanaethau Proffesiynol a fu’n gweithio gydag Ysgol y Graddedigion. Sut mae agor yr Academi Ddoethurol yn effeithio arna i?**

Bydd rôl y Gwasanaethau Proffesiynol yn aros yr un fath. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn lansio'r Academi Ddoethurol, siaradwch gyda’ch rheolwr llinell neu anfonwch e-bost at ysgol.graddedigion@aber.ac.uk.

**6. Pwy sy'n arwain yr Academi Ddoethurol?**

Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu penodi Pennaeth yr Academi Ddoethurol a byddwn yn rhoi diweddariad i chi maes o law. Yn y cyfamser, bydd yr Academi yn cael ei harwain gan yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth presennol Ysgol y Graddedigion, a'r Athro Matthew Jarvis.

**7. Beth fydd yn digwydd i Ysgol y Graddedigion?**

Bydd Ysgol y Graddedigion yn cael ei chau'n ffurfiol, a bydd ei swyddogaethau yn cael eu hysgwyddo a'u hehangu gan yr Academi Ddoethurol.

**8. Ble caf i ragor o wybodaeth?**

Anfonwch e-bost at ysgol.graddedigion@aber.ac.uk cyn 4 Awst os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.